| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **PWYLLGOR PENSIYNAU** |
| **DYDDIAD** | **25 TACHWEDD 2011** |
| **PWRPAS** | **Hyd yma mae argymhellion ynghylch llywodraethu wedi bodoli. O 2011/12 ymlaen mae gofynion newydd yn perthnasol oherwydd y Fframwaith Sgliau a Gwybodaeth a'r Côd Stiwardiaeth** |
| **TEITL** | **LLYWODRAETHU'R GRONFA BENSIWN** |
| **AWDUR** | **DILWYN WILLIAMS, CYFARWYDDWR CORFFORAETHOL** |

## 1. Cefndir

Gosodwyd trefn lywodraethu'r Gronfa Bensiwn mewn sawl dogfen fel a ganlyn:

- Datganiad Polisi Llywodraethu
- Datganiad Cydymffurfio – Llywodraethu
- Egwyddorion Buddsoddi – Glynu at Egwyddorion Myners

Mae'r holl ddogfennau hyn yn rhan o Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn ac maent yn sefydlu'r cyfrifoldebau ar gyfer llywodraethu'r gronfa a'r dulliau a ddefnyddir i reoli'r Gronfa Bensiwn.

Mae'r Datganiad Cydymffurfio – Llywodraethu yn gyfres o ddatganiadau cydymffurfio yn erbyn cyfres o egwyddorion arfer gorau ar gyfer llywodraethu a stiwardiaeth cynlluniau o'r fath.

Er bod y Gronfa Bensiwn yn cydymffurfio'n llawn â'r mwyafrif o'r datganiadau hyn, mae dau faes ble nad yw'r Gronfa'n cydymffurfio'n llwyr. Y cyntaf yw cynrychiolaeth aelodau'r cynllun / cyrff ymrwymedig neu aelodau lleyg ar y Pwyllgor. Yr ail yw mabwysiadu cynlluniau hyfforddi blynyddol ar gyfer aelodau'r pwyllgor. Bu'r mater hyfforddiant i swyddogion ac aelodau yn destun canllaw diweddar gan CIPFA.

## 2. Datblygiadau Diweddar

### 2.1 Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth

**2.1.1** Yn dilyn cyhoeddi canllawiau gan CIPFA yn 2010 ynglŷn â Sgiliau a Gwybodaeth am Gyllid Pensiynau i Gynrychiolwyr Etholedig, Aelodau Anweithredol ac Ymarferwyr Pensiynau yn y sector cyhoeddus, cyhoeddwyd Côd Ymarfer gan CIPFA ym mis Medi 2011 ynglŷn â Sgiliau a Gwybodaeth am Bensiynau'r Sector Cyhoeddus.

Ystyriwyd bod y canllaw blaenorol yn arfer dda y dylai awdrudodau ystyried mabwysiadu ond mae'r côd newydd yn ofynnol o 2011/12 ymlaen.

**2.1.2** Argymhella CIPFA y dylai cynlluniau pensiwn y sector cyhoeddus fabwysiadu'r datganiad a ganlyn:

(i) Mae'r sefydliad hwn yn mabwysiadu argymhellion allweddol y Côd Ymarfer Sgiliau a Gwybodaeth am Gyllid Pensiynau'r Sector Cyhoeddus.

(ii) Mae'r sefydliad hwn yn adnabod na ellir cael gweinyddiaeth gyllidol effeithiol ac na ellir gwneud penderfyniadau effeithiol oni bai bod gan yr unigolion cysylltiedig y sgiliau a'r wybodaeth ofynnol.

(iii) Felly, bydd y sefydliad hwn yn sicrhau bod ganddo amcanion, polisïau ac ymarferion, strategaethau a threfniadau adrodd yn ôl ffurfiol a chynhwysfawr er mwyn derbyn a chynnal sgiliau a gwybodaeth berthnasol yn effeithiol am Gyllid Pensiynau'r Sector Cyhoeddus ar gyfer y rhai hynny o fewn y sefydliad sy'n gyfrifol am weinyddiaeth gyllidol ac am wneud penderfyniadau.

(iv) Bydd y polisïau a'r ymarferion hyn yn cael eu harwain drwy gyfeirio at fframwaith cynhwysfawr o sgiliau a gwybodaeth megis y rhai a sefydlwyd gan Fframweithiau Sgiliau a Gwybodaeth am Gyllid Pensiynau CIPFA.

(v) Bydd y sefydliad hwn yn adrodd yn flynyddol ynghylch y modd y mae'r polisïau hyn wedi'u gweithredu drwy gydol y flwyddyn ariannol.

(vi) Mae'r sefydliad hwn wedi dirprwyo'r cyfrifoldeb am weithredu gofynion Côd Ymarfer CIPFA i'r Pennaeth Cyllid a bydd ef yn gweithredu yn unol â datganiad polisi'r sefydliad ac yn unol â Safonau Ymarfer Proffesiynol CIPFA.

**2.1.3** Argymhella CIPFA y dylai sefydliad fabwysiadu datganiad polisi sgiliau a gwybodaeth (fel y cyfeirir ato ym mhwynt (iii) uchod) fel a ganlyn:

Mae'r sefydliad hwn yn adnabod pwysigrwydd sicrhau bod gan yr holl staff a'r aelodau sy'n gyfrifol am weinyddiaeth gyllidol ac am wneud penderfyniadau o ran y cynllun pensiwn yr holl wybodaeth a'r sgiliau i ymgymryd â'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a ddyrannwyd iddynt.

Felly, bydd y sefydliad yn ceisio defnyddio unigolion gyda'r gallu a'r profiad a bydd y sefydliad yn darparu hyfforddiant ar gyfer staff ac aelodau'r cyrff pensiynau sy'n gwneud penderfyniadau er mwyn eu galluogi hwy i dderbyn a chynnal lefel briodol o arbenigedd, gwybodaeth a sgiliau.

**2.1.4** Dangosir y sgiliau a gwybodaeth a disgwylir o dan y Fframwaith yn Atodiad A i'r adroddiad hon.

**2.1.5** Gellir diwallu'r gofyn i adrodd yn flynyddol drwy gynnwys gwybodaeth yn Adroddiad Blynyddol y Gronfa Bensiwn. Dylai hwn gynnwys yr hyn a ganlyn:

- Sut y cafodd y fframweithiau eu gweithredu
- Pa asesiad a wnaed o'r anghenion hyfforddiant
- Pa hyfforddiant a gyflwynwyd yn erbyn yr anghenion hyfforddiant a adnabuwyd

**2.1.6** Mae lansiad y Côd yn amserol gan fod yr Arglwydd Hutton wedi argymell "y dylai pob cynllun pensiwn gwasanaeth cyhoeddus (a Chronfa CPLlL unigol), fod â Bwrdd Pensiwn sy'n gymwys, sy'n gyfansoddiadol briodol ac sydd wedi'i hyfforddi'n briodol".

**2.1.7** Yn unol â'r trefniadau hyfforddi presennol, mae'n ofynnol i holl aelodau'r Pwyllgor Pensiynau fynychu cwrs tri diwrnod am Hanfodion Hyfforddiant Ymddiriedolwyr ac wedyn byddant yn derbyn tystysgrif hyfforddiant '*LGPS Fundamentals'*. O bryd i'w gilydd, anfonir aelodau ar gyrsiau gloywi a byddant yn mynychu cynadleddau priodol yn seiliedig ar system rota. Yn ogystal, mae llawer o'r adroddiadau i'r Panel Buddsoddi yn cyflwyno gwybodaeth newydd i swyddogion ac aelodau etholedig ac felly, maent yn cyfrannu tuag at eu gwybodaeth am faterion buddsoddi.

**2.1.8** Yn dilyn mabwysiadu'r datganiadau uchod, y cam cyntaf fydd ymgymryd ag asesiad anghenion hyfforddiant. Bwriedir seilio hyn ar gwblhau holiadur hunanasesiad. Defnyddir yr wybodaeth a gesglir er mwyn trefnu unrhyw hyfforddiant angenrheidiol fel y nodwyd yn yr holiaduron. Gall hyfforddiant o'r fath gynnwys hyfforddiant mewnol mewn cyfarfodydd presennol neu mewn sesiynau penodol ychwanegol a chyrsiau allanol fel y bo'n briodol.

## 2.2 Côd Stiwardiaeth

**2.2.1** Ym mis Gorffennaf 2010, cyhoeddwyd Côd Stiwardiaeth ar gyfer y DU gan y *Financial Reporting Council* (*FRC*). Bwriad y Côd yw gwella ansawdd yr ymgysylltiad rhwng buddsoddwyr sefydliadol a chwmnïau er mwyn cynorthwyo i wella enillion hirdymor i'r cyfranddalwyr a gweithredu cyfrifoldebau llywodraethu'n effeithiol. Mae'r Côd yn sefydlu'r arfer gorau ynghylch ymgysylltiad â'r cwmnïau y buddsoddir ynddynt ac y creda'r *FRC* y dylai buddsoddwyr sefydliadol eu cyrraedd.

**2.2.2** Mae'r Côd yn mynnu y dylai buddsoddwyr sefydliadol ddadlennu mwy ar sail "cydymffurfio neu egluro". Cyhoeddir y dadleniad gan reolwyr asedau (rheolwyr buddsoddi) ar-lein a bydd cyfrifoldeb ar y rheolwyr i gadw'r dadleniadau'n gyfredol.

**2.2.3** Egwyddorion y Côd yw y dylai buddsoddwyr sefydliadol:

- Ddadlennu'n gyhoeddus eu polisi ynghylch y modd y byddant yn gweithredu'u cyfrifoldebau stiwardiaeth
- Bod â pholisi cadarn ynglŷn â rheoli buddiannau sy'n gwrthdaro mewn perthynas â stiwardiaeth
- Monitro'r cwmnïau y buddsoddir ynddynt
- Sefydlu canllawiau eglur ynghylch pryd a sut y byddant yn cynyddu'u gweithgareddau fel dull o ddiogelu a gwella gwerth i 'r cyfranddalwyr
- Bod yn fodlon gweithredu ar y cyd gyda buddsoddwyr eraill pan fo hynny'n briodol
- Cael polisi clir ynghylch pleidleisio a dadlennu gweithgareddau pleidleisio
- Adrodd o bryd i'w gilydd ynghylch eu stiwardiaeth a'u gweithgareddau pleidleisio

**2.2.4** Ar wefan yr *FRC* mae rhestr o'r buddsoddwyr hynny sydd wedi cyhoeddi datganiad cydymffurfio â'r Côd neu sydd heb wneud hynny. Mae'r rhestr yn cynnwys ein rheolwyr ecwiti, sef *Blackrock, Capital International* a *Fidelity Investment Managers* ynghyd ag *Insight Investments* ac *UBS Global Asset Management*.

**2.2.5** Er bod y Côd wedi'i gyfeirio at fuddsoddwyr sefydliadol yn bennaf, mae'r *FRC* yn sôn yn benodol am effaith mae ymddiriedolwyr y cynllun pensiwn, neu bwyllgorau pensiynau yn eu cael, yng nghyd-destun cronfeydd CPLlL, ar ansawdd a maint yr ymgysylltiad â'r cwmnïau y buddsoddir ynddynt. Mae'r *FRC* yn annog cynlluniau pensiwn i adrodd pan fyddant yn cydymffurfio â'r Côd a sut y byddant yn gwneud hynny. Hyd yma, nifer fechan (12) o gynlluniau pensiwn CPLlL sydd wedi cyhoeddi datganiad o gydymffurfiad gyda'r Côd.

**2.2.6** Cynnwys Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi'r Cynllun Pensiwn adran ynghylch gweithredu hawliau pleidleisio sy'n gysylltiedig â buddsoddiadau fel a ganlyn:

- Cred y Pwyllgor y bydd mabwysiadu arferion da mewn llywodraethu corfforaethol yn gwella rheolaeth o'r cwmnïau ac felly ychwanegu at werth hirdymor i'r cyfranddaliwr.
- Disgwylia'r Pwyllgor i'r rheolwyr buddsoddi gysylltu'n gyson ar lefel weithredol uwch â'r cwmnïau ble y buddsoddwyd asedau'r cynllun, nid yn unig fel elfen bwysig o'r broses fuddsoddi ond er mwyn sicrhau llywodraethu corfforaethol da.

- Cynhyrchwyd datganiadau gan reolwyr buddsoddi ynghylch eu polisïau llywodraethu corfforaethol ac mae'r Pwyllgor yn ystyried eu bod yn cydweddu â'r gofynion a nodir ym mharagraff 7.2. Disgwylia'r Pwyllgor i reolwyr buddsoddi weithredu yn unol â'r polisïau llywodraethu corfforaethol a nodwyd ganddynt.
- Adroddir wrth y Pwyllgor am y gweithgareddau pleidleisio ar sail eithriad yn rheolaidd

**2.2.7** Gweithredwyd yr hyn a ganlyn o ran y Côd Stiwardiaeth:

- Sicrhau bod rheolwyr buddsoddi Cronfa Bensiwn Gwynedd wedi mabwysiadu egwyddorion y Côd
- Adolygu datganiadau ein rheolwyr ynghylch cydymffurfio â'r Côd Stiwardiaeth
- Craffu bod ein rheolwyr ecwiti yn adrodd am ymgysylltiad yn chwarterol

**2.2.8** Dylid ystyried adrodd am ymgysylltiad rheolwyr wrth aelodau'r Pwyllgor hwn. Gallai hwn fod ar sail eithriad, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd, neu'n flynyddol, yn seiliedig ar yr adroddiadau chwarterol a dderbynnir gan y rheolwyr ecwiti.

**2.2.9** Mae nifer o opsiynau ar gael i fonitro a herio'r rheolwyr buddsoddi fel a ganlyn:

(i) Mae cwmnïau ar gael sy'n arbenigo mewn monitro a herio ymgysylltiad a phleidleisio'r rheolwyr buddsoddi yn y cwmnïau y maent yn buddsoddi ynddynt. Byddai cwmni o'r fath yn lobïo ar ran y Gronfa Bensiwn ac adrodd yn ôl yn rheolaidd. Mae'r cwmnïau hyn yn gweithredu ar ran gwahanol gleientiaid yn y sector cyhoeddus a'r sector preifat. Byddai penodi cwmni o'r fath yn haen ychwanegol gweddol sylweddol o ffioedd i'r Gronfa.

(ii) Mae Fforwm Cronfa Bensiwn Awdurdodau Lleol (*LAPFF*) yn bodoli er mwyn hyrwyddo buddiannau buddsoddi'r cronfeydd pensiwn awdurdodau lleol ac er mwyn mwyhau eu dylanwad fel cyfranddalwyr tra ar yr un pryd hyrwyddo cyfrifoldeb cymdeithasol a llywodraethu corfforaethol yn y cwmnïau y byddant yn buddsoddi ynddynt. Mae'r *LAPFF* yn dwyn at ei gilydd nifer o gynlluniau pensiwn awdurdodau lleol ac yn rhoi cyfle i drafod materion buddsoddi a gweithredu gan y cyfranddalwyr. Mae'r dylanwad a enillir gan gronfeydd o'r fath wrth weithredu gyda'i gilydd fel cyfranddalwyr ar faterion o bryder cyffredinol â photensial sylweddol o ran y cwmnïau ble byddant yn buddsoddi. Mae aelodaeth yn agored i bob cronfa

bensiwn awdurdod lleol. Byddai hyn yn ddull i'r awdurdod lleol o ddylanwadu ar lywodraethu corfforaethol y buddsoddiadau ecwiti'r Gronfa.

(iii) Gellid monitro'r rheolwyr buddsoddi yn fewnol a gellid ymddiried yn y rheolwyr buddsoddi i gynrychioli ein buddiannau ni fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Yn ymarferol, mae gan reolwyr buddsoddi mawr bolisïau ac arferion pleidleisio a byddant yn pleidleisio yn yr un modd ar gyfranddaliadau eu holl gleientiaid. Rhydd hyn gryn botensial iddynt fedru dylanwadu ar gwmnïau y buddsoddir ynddynt.

**2.2.10** Dylai Cronfa Bensiwn Gwynedd ystyried cyhoeddi datganiad o gydymffurfiad gyda'r Côd.

**2.2.11** Bydd unrhyw newidiadau gofynnol i'r Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi (*SIP*) a'r Egwyddorion Buddsoddi - Glynu at Egwyddorion Myners, o ganlyniad i fabwysiadu'r Côd, yn cael eu cwblhau pan ymgymerir ag adolygiad llawn o'r *SIP* ac fe'i cyflwynir i'r Pwyllgor hwn ym mis Mawrth 2012.

## 3. Ystyriaethau Cymdeithasol, Amgylcheddol a Moesegol

**3.1** Rhan o lywodraethu a stiwardiaeth dda yw rhoi ystyriaeth i faterion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol wrth reoli cwmnïau y buddsoddir ynddynt.

**3.2** Mae Datganiad o Egwyddorion Buddsoddi'r Cynllun Pensiwn yn cynnwys adran ynghylch ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol fel a ganlyn:

- O ran buddsoddiadau sy'n gymdeithasol gyfrifol, mae'r Pwyllgor yn ystyriol o egwyddorion cyfreithiol sy'n seiliedig ar benderfyniadau diweddar yn y llysoedd ac sy'n berthnasol i bob cynllun pensiwn. Yn benodol, nid yw'r awdurdodau gweinyddol â'r hawl i israddio buddiannau'r aelodau i'r galw cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol. Mae'n hanfodol bod perfformiad ariannol y Gronfa yn gyson ag amrywiaeth priodol ynghyd â'r pwyll priodol.
- Mae'r Pwyllgor wedi ystyried i ba raddau y dylid cymryd i ystyriaeth ffactorau cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol wrth ddewis, cadw a gwireddu'r buddsoddiadau. Yn ogystal, maent yn sylweddoli bod y ffactorau hyn yn cael effaith ar adenillion ar fuddsoddiadau.
- Disgwylia'r Pwyllgor i fyrddau'r cwmnïau ble mae'r Gronfa Bensiwn yn buddsoddi ynddynt gymryd sylw dyledus o faterion

cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol a thrwy hynny hyrwyddo lles ariannol hirdymor y cyfranddalwyr. Edrycha'r Pwyllgor i gyfeiriad cyfarwyddwyr y cwmni er mwyn rheoli materion y cwmni hwnnw gan gymryd ystyriaeth briodol o les hirdymor y cyfranddalwyr.

- Mae'r rheolwyr buddsoddi wedi cynhyrchu datganiadau ynghylch y polisi buddsoddi o ran ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol ac mae'r Pwyllgor yn ystyried eu bod yn unol â'r amcanion a amlinellir ym mharagraff 6.3 uchod. Disgwylia'r Pwyllgor i'r rheolwyr buddsoddi weithredu yn unol â'r polisïau buddsoddi cymdeithasol gyfrifol a nodwyd ganddynt.
- Creda'r Pwyllgor bod y safiad hwn yn unol ag amcanion hirdymor y cynllun.
- Bydd aelodau'r Pwyllgor yn bodloni eu hunain yn flynyddol fod y rheolwyr buddsoddi yn dilyn y polisi hwn.

**3.3** Fel rhan o fabwysiadu'r Côd Stiwardiaeth, mae'n briodol cynnwys ystyriaeth am faterion cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol wrth graffu ac adrodd am ymgysylltiad y rheolwyr ecwiti gyda'r cwmnïau y maent yn buddsoddi ynddynt.

## 4. Argymhellion

### 4.1 Fframwaith Sgiliau a Gwybodaeth

Argymhellir y dylai'r Pwyllgor Pensiynau fabwysiadu'r datganiadau ym mharagraff 2.1.2 a 2.1.3 uchod a dylid cylchredeg holiadur hunanasesu i aelodau er mwyn sefydlu'r gofynion hyfforddi i symud ymlaen a datblygu rhaglen hyfforddi briodol.

### 4.2 Côd Stiwardiaeth

Argymhellir bod y Pwyllgor yn cytuno i'r egwyddor o gyhoeddi datganiad o gydymffurfiad gyda'r Côd Stiwardiaeth a mabwysiadu dulliau priodol o graffu ac adrodd am reolwyr buddsoddi ecwiti drwy ddewis yr opsiwn o baragraff 2.2.9 er mwyn cyflawni'r nod hwnnw.

Yn ogystal mae angen gwneud penderfyniad a dylai adrodd i'r Pwyllgor ar ymgysylltiad rheolwyr buddsoddi ar sail eithriad neu yn flynyddol.

### 4.3 Ystyriaethau Cymdeithasol, Amgylcheddol a Moesegol

Argymhellir y dylai'r Pwyllgor gytuno i gynnwys ystyriaethau cymdeithasol, amgylcheddol a moesegol yn y dulliau priodol o graffu ac adrodd am reolwyr buddsoddi ecwiti.